22130227

International Baccalaureate®
Baccalauréat International
Bachillerato Internacional

**WELSH A: LITERATURE – STANDARD LEVEL – PAPER 1**
**GALLOIS A : LITTÉRATURE – NIVEAU MOYEN – ÉPREUVE 1**
**GALÉS A: LITERATURA – NIVEL MEDIO – PRUEBA 1**

Wednesday 8 May 2013 (morning)
Mercredi 8 mai 2013 (matin)
Miércoles 8 de mayo de 2013 (mañana)

1 hour 30 minutes / 1 heure 30 minutes / 1 hora 30 minutos

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not open this examination paper until instructed to do so.
- Write a guided literary analysis on one passage only. In your answer you must address both of the guiding questions provided.
- The maximum mark for this examination paper is *[20 marks]*.

INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- N'ouvrez pas cette épreuve avant d'y être autorisé(e).
- Rédigez une analyse littéraire dirigée d'un seul des passages. Les deux questions d'orientation fournies doivent être traitées dans votre réponse.
- Le nombre maximum de points pour cette épreuve d'examen est *[20 points]*.

INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS

- No abra esta prueba hasta que se lo autoricen.
- Escriba un análisis literario guiado sobre un solo pasaje. Debe abordar las dos preguntas de orientación en su respuesta.
- La puntuación máxima para esta prueba de examen es *[20 puntos]*.


© International Baccalaureate Organization 2013

https://xtremepape.rs/

*Gan ddilyn yr arweiniad, ysgrifennwch ddadansoddiad llenyddol ar* ***un*** *darn yn unig. Yn eich ateb, rhaid ichi drafod y ddau gwestiwn arweiniol a roddwyd.*

**1.**

Daeth y car o nunlle...

... fel y glaw, ychydig funudau ynghynt. Ac roedd ei mam wedi mynd allan heb gôt, heb ymbarél.

“Fydda i ddim chwinciad,” meddai. “Rho’r teciall ymlaen.” Wrth y drws, trodd. “Bydd un paced mawr o jips yn ddigon rhwng y ddwy ohonan ni, yn bydd?”

“A lot o halan a finag, cofiwch.”

Allan â’i mam â phapur pumpunt yn ei llaw. Wrth i’r ferch lenwi’r tegell, clywodd sŵn annisgwyl: glaw trwm, yn taro fel bwledi oddi ar do’r sied a ffenestri’r tŷ gwydr.

Ochneidiodd y ferch. Doedd Derek Brockway* ddim wedi sôn yr un gair am law ar y teledu’n gynharach.

“Typical!”

Aeth y ferch at y drws ffrynt, gan feddwl y byddai ei mam wedi troi’n ei hôl. Ond na, doedd dim golwg ohoni, dim ond y glaw yn sgubo ar draws y stryd.

Ochneidiodd y ferch eto. Gwisgodd ei chôt, cydiodd mewn ymbarél ac yng nghôt law ei mam, a mynd allan i’r glaw.

Roedd eu stryd, fel arfer, yn dawel ac yn llonydd. Rhegodd y ferch wrth i ragor o ddŵr oer wlychu gwaelodion ei jîns. Byddai’n rhaid iddi newid ar ôl cyrraedd yn ei hôl adref, er gwaethaf ei chôt a’i hymbarél.

Cyrhaeddodd y stryd nesaf. Gallai weld y siop sglodion ym mhen pella’r stryd, ei ffenest fel ffrâm fawr, felen. Roedd ei mam yn sefyll yn y drws yn syllu ar y glaw, â’r pecyn bwyd o dan ei chesail. Gwenodd pan welodd ei merch, ond yn lle aros lle roedd hi, daeth allan o’r siop a chamu oddi ar y palmant.

Yna, roedd y cyfan fel breuddwyd cas. Daeth y car o nunlle, ei oleuadau’n dallu, yr injan yn chwyrnu a rhuo, a’r gerddoriaeth hip-hop yn bytheirio allan ohono. Dechreuodd ei mam droi tuag at y car, ond yna roedd hi’n hedfan – yn hedfan wysg ei chefn a’i chorff yn llac i gyd fel doli glwt.

“Maaaam!” gwaeddodd y ferch, ond chlywodd neb mohoni. Roedd gormod o sŵn. Daliai’r ddraig i ruo a’r bas a’r drymiau’n ffrwydro dros y stryd. A’r glaw’n byrlymu ar ddefnydd ei hymbarél.

Gwelodd ei mam yn syrthio i’r llawr a chefn ei phen yn taro yn erbyn ochr y palmant. Wrth i’r car ruthro heibio iddi, a chyn iddo ddiflannu o’r golwg i lawr y stryd, cafodd gip ar wyneb y gyrrwr. Sylwodd hefyd ar ddau berson yn eistedd y tu ôl iddo, yn y sedd gefn.

Dynion ifanc, y tri ohonyn nhw.

A’r ddau yn y sedd gefn wedi troi er mwyn syllu allan drwy’r ffenest ôl.

Ac yn syllu a chwerthin.

Ond prin y sylwodd y ferch arnyn nhw ar y pryd. Dim ond wedyn – ddyddiau, wythnosau wedyn – y cofiodd amdanyn nhw, pan ddechreuon nhw lenwi ei breuddwydion bob nos.

Eu hwynebau, yn chwerthin, chwerthin, chwerthin...

Ar y pryd, roedd hi ar ei gliniau. Ar ei gliniau yng nghanol y ffordd.

Lle roedd ei mam yn gorwedd ac yn gwaedu yn y glaw.

Gareth F Williams, *Tacsi i Hunllef* (2011)

---

* Derek Brockway: Person enwog o Gymru sy’n rhoi rhagolygon y tywydd ar y teledu yn gyson.



https://xtremepape.rs/

(a) Beth yn arbennig yn eich barn chi y mae'r awdur yn ceisio ei ddweud am y cymeriadau a'r sefyllfa yn y darn uchod?

(b) Mae creu awyrgylch berthnasol yn bwysig i awdur; sut y llwydda i wneud hynny'n effeithiol yn y darn hwn?



https://xtremepape.rs/

**2.**

**Cân Galed**

Dyma’r tro cynta imi weld cân
Wedi caledu.

Cân blygeiniol a ddylai grynu’r wawr
A gwlitho’r anialwch
Rai blynyddoedd i heddiw
— Mae yma’n galed dan draed.

Disgynnodd o rywle.

Nid o’r awyr
Yn ganghennau o gynghanedd,
Nid yn boer o beroriaeth
O big.

Disgynnodd
Yn swp
O’r to i’r llawr caled.

Heb sŵn
Cwafreiddiodd y plu
Fel petai awel o anadl arnynt.

Ni thasgodd ffynnon o waed,
Ni holltodd y cnawd,
Nid ysigwyd asgwrn.

Diau na fu’r farwolaeth yn ddim mwy na llonyddu esmwyth.

Bu bai ar yr haul poblogaidd
A gusanodd y gweddillion drwy’r dyddiau
Â’i wefusau cynddeiriog
Nes sugno’r smotyn yn sych.

Yna, rhaid oedd i’r traed gerdded —
Gwragedd, gwŷr, plant —
Na fynnent chwilio’u llwybr,
Yn sathru o sawdl i wadn.

Rhuthrodd y ceir
Mawr fel hen ferched goludog
Ar deierau modrwyog
Gan drafnidio’u ffordd dros yr hyn a ddiffoddwyd.



https://xtremepape.rs/

Ni welais y peth erioed o'r blaen —
Cân wedi caledu.

Bonion esgyll bach,
Darn o groen sychlyd fel crofen caws ffarm,
Blaen-saeth bitw o big
A ddylai fod yn diferu nodau ymhen misoedd
— Mae yma dan droed
Yn galed grimp.

Eos y nos a oleuai ganolnos ein dydd yfory?

Un o adar Rhiannon* ein dyfodol diramant?

Drudwen i drydar hanes ein diormesu?

Waeth beth, bellach.

Dan draed y mae,
Yn gân a galedwyd
Gan gwymp.

Eirian Davies, *Cân Galed* (1974)

---

* Rhiannon: Un o brif gymeriadau llên yr Oesoedd Canol. Fe'i cysylltir ag Adar Rhiannon a allai ddihuno'r marw a huno'r byw.

(a) Beth yw eich dealltwriaeth o'r meddwl a'r teimladau a adlewyrchir yn y gerdd hon?

(b) Ym mha ffyrdd y mae ffurf y gerdd (ei llinellau a'i pharagraffau, ac yn y blaen) yn ychwanegu at ei hystyr?



https://xtremepape.rs/